



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb i adroddiad thematig Estyn o
symudiadau rheoledig: defnydd effeithiol o symudiadau
rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion**

OGL

ISBN digidol 978 1 78903 531 5
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2018
WG30290

Teitl yr adroddiad:

Symudiadau rheoledig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion

Manylion yr adroddiad:

Comisiynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru i bennu pa mor effeithiol yw gweithdrefnau awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir mewn perthynas â symudiadau rheoledig rhwng ysgolion, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio canllawiau anstatudol a dogfennau model Llywodraeth Cymru ar gyfer y broses symudiadau rheoledig. Bwriad yr adroddiad yw helpu i lywio sut y gweithredir y Fframwaith Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS).

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Gyda chymorth canllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cyflwyno protocolau priodol sy'n helpu disgyblion i symud yn llwyddiannus i ysgol newydd, yn hytrach na chael eu gwahardd. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol wedi diwygio eu protocolau symudiadau rheoledig ers hynny, ac yn sgil hynny nid ydynt yn adlewyrchu ethos nac athroniaeth symudiad rheoledig. Mae prosesau lleol 'ymadawiadau rheoledig' neu 'drosglwyddiadau rheoledig' yn cael gwared â hawl disgyblion i ddychwelyd i'w hysgol gartref, pe na bai'r trosglwyddiad yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae'r prosesau hyn yn anffurfiol a chânt eu cymhwyso'n anghyson ledled Cymru. Mewn rhai achosion, mae 'ymadawiad rheoledig' yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na gwaharddiad parhaol ac felly mae'r amddiffyniadau cyfreithiol sydd ar waith ar gyfer dysgwyr a waherddir yn cael eu hosgoi. Gan nad yw symudiadau rheoledig yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth, mae data sydd wedi'i gasglu gan awdurdodau lleol mewn perthynas â symudiadau rheoledig yn annibynadwy; mae hyn yn arwain at ddadansoddiad annigonol o nodweddion y dysgwyr hynny sy'n defnyddio'r broses a'u rhesymau am wneud hynny. Yn aml, nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar yr asesiadau arbenigol sydd eu hangen arnynt i nodi anghenion dysgu a chyfathrebu sylfaenol yn ddigon cyflym, felly efallai y bydd rhai symudiadau rheoledig yn amhriodol.

Argymhellion:**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 - Ddarparu arweiniad clir, cyfredol i awdurdodau lleol, ysgolion ac UC Dau ar ddefnyddio symudiadau rheoledig a rhaglenni cymorth bugeiliol, yn enwedig yn ymwneud ag amserlenni rhan-amser.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio opsiynau ar gyfer diwygio'r ddogfen wybodaeth bresennol ar gyfer symudiadau rheoledig; yn enwedig

mewn perthynas ag egluro'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn ymarfer annerbyniol. Byddwn hefyd yn ceisio egluro'r canllawiau ar gyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau lleol ac ysgolion drwy'r broses symudiad rheoledig.

Ni fydd y canllawiau ar ddefnyddio Rhaglenni Cymorth Bugeiliol yn cael eu diwygio ar hyn o bryd gan fod y canllawiau presennol wedi'u diwygio yn 2016 fel rhan o'r canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau ar gyfer atgyfeiriadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol a fydd yn tynnu sylw at yr angen i ysgolion ac awdurdodau lleol lunio ymateb graddol priodol i ymddygiad dysgwyr; mae hyn yn cynnwys y defnydd o Raglenni Cymorth Bugeiliol

A2 - Cryfhau amddiffyniad cyfreithiol a mesurau amddiffynnol yn ymwneud â symudiadau rheoledig i adlewyrchu'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd i ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gwrthod: Mae'r amddiffyniadau cyfreithiol sy'n berthnasol i ddysgwyr sydd wedi'u gwahardd yn barhaol ar hyn o bryd ar waith oherwydd bod y broses lle mae dysgwr yn cael ei wahardd yn barhaol wedi'i rhagnodi yn y gyfraith. Gan nad yw symudiadau rheoledig yn cael eu diffinio yn y gyfraith, ni ellir cymhwyso'r amddiffyniadau cyfreithiol penodol hynny i ddysgwyr sy'n wynebu symudiad rheoledig.

Ni ddylid tynnu dysgwyr sy'n defnyddio'r broses symudiad rheoledig oddi ar gofrestr eu hysgol a gynhelir wreiddiol tan i bawb gadarnhau bod y symudiad wedi llwyddo. Bydd y dysgwyr yn trosglwyddo i gofrestr yr ysgol newydd bryd hynny. Gan hynny, gydol proses y symudiad rheoledig mae'n rhaid i'r amddiffyniadau cyfreithiol sydd ar waith i bob dysgwr fod yn gymwys. Wrth ddiwygio'r ddogfen wybodaeth am symudiad rheoledig, bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r amddiffyniadau cyfreithiol sydd ar waith ar gyfer dysgwyr mewn symudiad rheoledig.

A3 - Casglu a chyhoeddi data ar symudiadau rheoledig a gwaharddiadau ar lefel awdurdodau lleol a chenedlaethol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gwrthod: Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi archwilio'r posibilrwydd o gasglu a chyhoeddi data ar symudiadau rheoledig. Gan nad yw symudiadau rheoledig yn cael eu diffinio yn y gyfraith, nid oes gan Lywodraeth Cymru sail gyfreithiol i fynnu cael y wybodaeth hon gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae Argymhelliad 7 yr adroddiad hwn yn cynghori ALLau i gasglu gwybodaeth am symudiadau rheoledig i'w defnyddio ar lefel leol. Fodd bynnag, oherwydd ymarferion amrywiol ledled Cymru, pe bai'r wybodaeth hon ar gael i Lywodraeth Cymru yn wirfoddol, mae'n annhebygol y byddai'n ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn casglu a chyhoeddi data ar waharddiadau

ar lefel awdurdod lleol a chenedlaethol.

A4 - Ystyried ehangu mesurau perfformiad, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, i hyrwyddo arfer gynhwysol ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn: Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu system werthuso newydd a fydd yn hyrwyddo materion iechyd ehangach yn hytrach na chanolbwyntio ar gyrhaeddiad. Bydd y fframwaith newydd yn hyrwyddo tegwch, cynhwysiant, dewis a llwybrau unigol i ddysgu, heb golli golwg ar y dysgwr ei hun. Bydd asesu a gwerthuso yn sbarduno gwelliannau ar gyfer pob dysgwr a bydd dibyniaeth ar hunanwerthuso ar gyfer pob haen o'r system. Bydd yn cael ei gysoni â'r cwricwlwm newydd ac yn canolbwyntio ar greu dysgwyr sy'n uchelgeisiol, galluog, creadigol, moesegol a hyderus. Mae'n rhaid i ni sicrhau dull cydlynol sy'n osgoi canlyniadau anfwriadol ac sy'n cyfrannu at godi safonau ym mhob ystafell ddosbarth ac i'n holl ddysgwyr. Mae codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system sy'n ennyn hyder y cyhoedd ac sy'n ffynhonnell balchder cenedlaethol wrth wraidd ein cynllun gweithredu.

Dylai awdurdodau lleol:

A5 Ddarparu'r gallu i ddisgyblion a'u teuluoedd fanteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd cyn ac yn ystod y broses symudiad rheoledig

A6 Monitro defnydd a phriodoldeb rhaglenni cymorth bugeiliol ar lefel ysgolion

A7 Casglu data ar symudiadau rheoledig a defnyddio'r wybodaeth hon i arfarnu effeithiolrwydd rhaglenni cymorth bugeiliol

A8 Hyrwyddo datblygu a defnyddio protocolau symudiadau rheoledig rhwng ysgolion, lle bynnag y bo hynny'n bosibl

A9 Sicrhau y gall disgyblion a'u teuluoedd fanteisio ar gyngor ac asesiadau arbenigol yn brydlon er mwyn sefydlogi lleoliadau mewn ysgolion cartref lle bynnag y bo hynny'n bosibl

Dylai ysgolion:

A10 Sicrhau y gall disgyblion a'u teuluoedd fanteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd

A11 Adolygu'r defnydd o raglenni cymorth bugeiliol yn sgil arweiniad cenedlaethol a lleol yn gynnar yn y broses symudiadau rheoledig.

A12 Sicrhau y caiff gwybodaeth allweddol ei rhannu â'r ysgol sy'n derbyn yn ystod y cyfarfod cychwynnol.

Bydd Is-adran Cymorth i Ddysgwyr y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i dynnu eu sylw at yr argymhellion a roddir arnynt ac ar

ysgolion gan yr adroddiad hwn.

Manylion cyhoeddi:

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 29 Mawrth 2018 a gellir ei weld ar wefan Estyn:

www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig